| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Mai 2015** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Archwilio Mewnol 2015/16** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu Cynllun Archwilio Mewnol 2015-16 i’r Pwyllgor. Mae'r Strategaeth yn darparu manylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn a fydd yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'barn' ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith lywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i’r 'prif weithredwr archwilio' ddatblygu cynllun archwilio mewnol sy'n ystyried y gofyniad i ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu . Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried strategaeth gynllunio archwilio mewnol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Pwyllgor gymeradwyo Strategaeth Archwilio Mewnol 2015/16 (Atodiad 1)

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae Strategaeth Archwilio Mewnol 2015-16 yn rhoi cefndir y gwasanaeth archwilio mewnol yn ogystal â'i gynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar asesiad risg ac ymgynghori gyda gwasanaethau a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Bydd y cynllun gwaith arfaethedig yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'barn' gyffredinol ar ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16. Bydd y Pwyllgor hwn yn derbyn adroddiadau gwybodaeth rheolaidd ar gynnydd wrth ddarparu’r Strategaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol a gallai helpu gyda’r gwaith o'u cyflawni.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod â phob aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a phenaethiaid gwasanaeth i drafod y gwaith Archwilio Mewnol arfaethedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Gall methu â chyflwyno lefel ddigonol o archwilio mewnol olygu na all y Pennaeth Archwilio Mewnol roi 'barn' flynyddol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn. Gallai hyn olygu y bydd problem lywodraethu sylweddol yn cael ei chodi yn 'natganiad llywodraethu blynyddol’ y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i’r 'pwyllgor archwilio' adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor a goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.